

Polisi Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau (ICE)

Medi 2026

Cynnwys

1.	Cwmpas	3
2.	Mathau o gymwysterau a restrir yn nogfen ICE y CGC	3
3.	Aseidiadau cymwysterau ychwanegol a gwmpesir gan ddogfen ICE y CGC	4
4.	Aseidiadau cymwysterau ychwanegol a gwmpesir gan agweddau ar ddogfen ICE y CGC	4
5.	Arolygiadau ac ymweliadau â chanolfannau	5
6.	Cyngor pellach	5
7.	Rheoli fersiynau ac adolygu'r polisi	5

Polisi Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau

1. Cwmpas

Polisi i ganolfannau yw hwn ac mae'n rhoi manylion am y cymwysterau a'r asesiadau y mae'n rhaid eu cynnal yn unol â Chyfarwyddiadau'r CGC ar Gynnal Arholiadau ac unrhyw gyfarwyddiadau penodol CBAC. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gymwysterau CBAC, gan gynnwys y rhai dan frand Eduqas, ac mae'n berthnasol i **bob** asesiad y mae asesiad ysgrifenedig neu asesiad ar-sgrin wedi'i amserlennu ar ei gyfer. Mae asesiadau ychwanegol y cyfeirir atynt yn adrannau 3 a 4.

Fel aelod o'r Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC), mae CBAC yn dilyn cyfarwyddiadau'r CGC ar gynnal arholiadau fel y'u nodir yn y ddogfen, '[Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau \(ICE\)](#)'. Dilynnir y canllawiau hyn gan holl Gyrff Dyfarnu'r CGC ac mae'n sicrhau bod y gofynion wedi'u cymhwyso'n gyson. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â chanllawiau'r CGC. Mae'n ofynnol i ganolfannau gadw at ofynion yr holl ddogfennau.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn sicrhau bod pob canolfan yn gweinyddu arholiadau mewn ffordd gyson a diogel er mwyn gallu cynnal uniondeb y broses asesu.

Cyfrifoldeb pennaeth y ganolfan yw sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r polisi hwn a'r cyfarwyddiadau yn nogfen [ICE y CGC](#). Bydd methu â gwneud hynny yn gallu bod yn gamymddwyn yn ôl y diffiniad ym [Mholisi Camymddwyn CBAC](#) ac yn [nogfennaeth camymddwyn y CGC](#).

2. Mathau o gymwysterau a restrir yn nogfen ICE y CGC

Mae dogfen [ICE y CGC](#) yn rhestru'n benodol y mathau o gymwysterau a gwmpesir gan y cyfarwyddiadau. Gellir gweld y rhestr o'r cymwysterau hynny a gynigir gan CBAC isod. Rhaid i ganolfannau gadw at y cyfarwyddiadau ar gyfer pob asesiad o fewn y mathau hyn o gymwysterau sydd ag asesiad ysgrifenedig neu asesiad ar-sgrin wedi'i amserlennu:

- Tystysgrifau Lefel Mynediad
- TAG
- TGAU
- Lefel T
- Lefel 1 a Lefel 2 Cymwysterau Cyffredinol
- Lefel 1 a Lefel 2 Dyfarniadau Galwedigaethol, yn cynnwys Dyfarniadau Technegol
- Lefel 3 Tystysgrifau, Diplomâu, Diplomâu Estynedig Cymhwysol, Cymwysterau Academaidd Amgen
- TAAU*
- Lefelau V*
- Tystysgrifau Sylfaen*
- Tystysgrifau Galwedigaethol*

*o 2027 ymlaen

Yn ogystal, ac fel y'u rhestrir yn nogfen [ICE y CGC](#), mae'r cyfarwyddiadau hefyd yn berthnasol i'r canlynol:

- arholiadau CBAC ac Eduqas Celf wedi'u hamseru
- CBAC TAG U2 Gwyddoniaeth: arholiadau ymarferol

3. Asesiadau cymwysterau ychwanegol a gwmpesir gan ddogfen ICE y CGC

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i asesiadau ysgrifenedig neu asesiadau ar-sgrin wedi'u hamserlennu yn y cymwysterau CBAC canlynol:

- Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP): Ymarfer a Theori
- Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Cymwysterau Cymraeg i Oedolion
- Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i asesiadau ar-sgrin ar alw yn y cymwysterau CBAC canlynol:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP): Craidd
- Sgiliau Hanfodol Cymru

Ar gyfer asesiadau'r cymwysterau a restrir yn yr adran hon, rhaid i ganolfannau gadw at y cyfarwyddiadau yn nogfen [ICE y CGC](#). Yn ogystal â hynny, rhaid i ganolfannau hefyd gyfeirio at unrhyw ganllawiau pwnc-benodol sy'n ymwneud â gweinyddu'r asesiadau hyn.

4. Asesiadau cymwysterau ychwanegol a gwmpesir gan agweddau ar ddogfen ICE y CGC

Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i'r asesiadau CBAC canlynol, a gynhelir o fewn cyfnod penodol:

- CBAC TGAU Y Gwyddorau: arholiadau ymarferol
 - TGAU Bioleg
 - TGAU Cemeg
 - TGAU Ffiseg
 - TGAU Gwyddoniaeth (Dwyradd a Gradd Unigol)
 - TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd a Gradd Unigol)
- CBAC TGAU ITM: asesiadau llafar
- CBAC TAG ITM: asesiadau llafar
- Eduqas UG ITM: asesiadau llafar
- CBAC TGAU Cymraeg Craidd: asesiad uned 2
- CBAC TGAU Cymraeg Ail Iaith: asesiadau llafar

Ar gyfer holl asesiadau'r cymwysterau yn yr adran hon, mae agweddau ar y cyfarwyddiadau yn nogfen [ICE y CGC](#) yn berthnasol. Rhaid i ganolfannau gyfeirio at unrhyw ganllawiau pwnc-benodol sy'n ymwneud â gweinyddu'r asesiadau hyn, ac at adrannau perthnasol o gyfarwyddiadau [ICE y CGC](#).

5. Arolygiadau ac ymweliadau â chanolfannau

Ar gyfer cymwysterau a restrir dan adran 2, bydd arolygwyr o Wasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC yn ymweld â chanolfannau yn ystod y flwyddyn i wirio eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn nogfen [ICE y CGC](#). Cynhelir yr ymweliadau hyn ar ran holl Gyrff Dyfarnu'r CGC. Bydd y ganolfan yn derbyn copi o'r adroddiad arolygu yn dilyn arolygiad y CGC.

Ar gyfer cymwysterau a restrir dan adrannau 3 a 4, gall monitoriaid sy'n gweithredu ar ran CBAC gynnal ymweliadau â chanolfannau yn ôl disgrisiwn CBAC.

Ym mhob achos, rhaid i ganolfannau gydweithredu ag unrhyw ymweliad gan arolygwyr y CGC neu fonitoriaid CBAC. Rhaid i uwch aelod o staff neu'r swyddog arholiadau fod ar gael i fynd gyda'r arolygwr/monitor drwy gydol yr amser y mae'n ymweld â'r ganolfan, gan gynnwys arolygu cyfleuster storio diogel y ganolfan lle bo hynny'n ofynnol ac yn berthnasol. Bydd arolygwyr/monitoriaid awdurdodedig yn mynd i'r ganolfan ac yn dangos dogfen adnabod ffurfiol yn profi pwy ydyn nhw.

6. Cyngor pellach

Dylai canolfannau gyfeirio at y polisi hwn a'r cyfarwyddiadau yn nogfen [ICE y CGC](#) yn y lle cyntaf.

Os oes angen cefnogaeth neu gyngor pellach ynghylch asesiadau'r cymwysterau dan adran 2, yna gall canolfannau gysylltu â Thîm Rheoli Canolfannau CBAC naill ai drwy anfon e-bost at canolfannau@cbac.co.uk, neu drwy ffonio 02920 265 077.

Os oes angen cefnogaeth neu gyngor pellach ynghylch asesiadau'r cymwysterau dan adrannau 3 a 4, dylai canolfannau gysylltu â'r tîm pwnc perthnasol yn y lle cyntaf. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar y [tudalennau pwnc](#) perthnasol

7. Rheoli fersiynau a dyddiad adolygu'r polisi

Rheoli fersiynau	Dyddiad	Perchennog	Newidiadau	Adolygiad Nesaf
1.0	Medi 2026	Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Rheoleiddio	Creu dogfen Polisi	Awst 2027